RHEOLIADAU ISRADDEDIG

## Contents

Rheoliadau ar gyfer y Dystysgrif Sylfaen Ryngwladol (IFC) .... 2
Rheoliadau ar gyfer Graddau Sylfaen .... 5
Rheoliadau ar gyfer Graddau Cychwynnol Modiwlar .... 8
Rheoliadau ar gyfer Dychwelyd i Ymarfer (Nyrsio Oedolion) .... 19
Rheoliadau ar gyfer FdSc Nyrsio Milfeddygol .... 20
Rheoliadau ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Addysg Gofal Iechyd .... 24

## Rheoliadau ar gyfer y Dystysgrif Sylfaen Ryngwladol (IFC)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rheoli dyfarnu y Dystysgrif Sylfaen Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth, y Brifysgol o hyn allan.

### Cymhwysedd

Bydd ymgeiswyr ar gyfer y Dystysgrif Sylfaen Ryngwladol (IFC) a ddyfernir gan y Brifysgol fel rheol yn ymgeiswyr cyn-Prifysgol, sydd wedi cwblhau'r Chweched Dosbarth neu'r hyn sy'n cyfateb iddo, neu'n dal yno, neu sy'n chwilio am gymhwyster mynediad Prifysgol.

Fel rheol dylai myfyrwyr fod wedi cwblhau addysg uwchradd yn llwyddiannus yn eu gwlad eu hunain ar lefel sy'n cyfateb i Gradd 12 cyn cychwyn cwrs sylfaen ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ystyrir ceisiadau gan fyfyrwyr nad ydynt wedi cwblhau eu haddysg i'r safon hon fesul achos unigol.

Ceir tri llwybr trwy'r Dystysgrif a bydd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol yn penderfynu, adeg derbyn pob cais, beth yw'r llwybr mwyaf addas i bob ymgeisydd yn unol â safon y cymwysterau blaenorol.

### Meini Prawf Dyfarnu

Mae'r Dystysgrif Sylfaen Ryngwladol yn gymhwyster ffurfiol gan Brifysgol Aberystwyth ar Lefel 0 (Lefel 3 FfCChC) sy'n paratoi ymgeiswyr ar gyfer mynediad i raddau israddedig y Brifysgol. Bydd cyrsiau fel arfer yn datblygu gwybodaeth am ddisgyblaethau academaidd, a chymhwysedd mewn Saesneg a sgiliau academaidd.

Byddai'r cymhwyster fel rheol yn gynllun llawn-amser blwyddyn o hyd, er y gellir cael amrywiadau sy'n gallu dangos eu bod yn cyfateb yn gadarn o ran y dull cyflenwi a'r safonau.

Fel rheol bydd gofyn i ymgeiswyr llawn-amser ddilyn yr hyn sy'n cyfateb i 120 credyd ar Lefel 0 o fewn un flwyddyn academaidd yn unol â'r strwythur a gymeradwywyd ar gyfer y rhaglen. Gellir dyfarnu Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL) i fyfyrwyr sy'n gallu dangos tystiolaeth o ddysgu blaenorol digonol.

Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r Bwrdd Arholi eu bod wedi datblygu'r cymwyseddau a ddisgwylir gan ymgeiswyr am radd yn y Brifysgol. Bydd hyn yn ddibynnol ar ymgeiswyr yn bodloni'r Bwrdd Arholi yn eu pynciau academaidd a hefyd yn eu cymhwysedd mewn Saesneg a sgiliau academaidd.

Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus basio'r hyn sy'n cyfateb i 120 o gredydau ar y cwrs.

Bydd y Dystysgrif yn cael ei dyfarnu ar sail Pasio neu Fethu. Bydd y trothwy ar gyfer Pasio yn cael ei sefydlu gan y Ganolfan Saesneg Ryngwladol ar gyfer pob ailadroddiad o'r dyfarniad.

Asesu

Gall ymgeisydd sy'n methu gael ei ailgyflwyno i'w arholi, ar argymhelliad y Bwrdd Arholi, ar ddau achlysur arall a dim mwy. Cynhelir yr ailarholi o fewn cyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad yr arholiad gwreiddiol.

Ar ddisgresiwn y Bwrdd Arholi gall fod gofyn i'r cyfryw ymgeiswyr:

(a) ailadrodd y cynllun astudio cyfan neu ran ohono a chael eu hailarholi yn yr arholiad cyfan neu yn y rhannau hynny o'r arholiad y maent wedi eu methu;

neu

(b) gael eu hailarholi yn yr arholiad cyfan neu yn y rhannau hynny o'r arholiad y maent wedi eu methu.

Disgrifiwr ar gyfer cymwysterau ar FfCAU/FfCChC Lefel 3: Tystysgrif Sylfaen

Bydd gan ddeiliaid Tystysgrif Sylfaen wybodaeth sylfaenol am gysyniadau maes penodol o bwnc academaidd, ac ystod o sgiliau trosglwyddadwy a sgiliau astudio academaidd. Byddant yn gallu cyfathrebu eu gwybodaeth yn glir ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd y Dystysgrif yn hwyluso mynediad i addysg uwch ar FfCAU/FfCChC Lefel 4.

Dyfernir Tystysgrifau Sylfaen i fyfyrwyr sydd wedi dangos:

- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau, y damcaniaethau a'r egwyddorion gwaelodol sy'n gysylltiedig â'u maes/meysydd astudio

- gallu i gyflwyno a dadansoddi data ansoddol a/neu feintiol er mwyn datblygu trywydd dadl a rhoi barn gadarn yn unol â damcaniaethau a chysyniadau sylfaenol y pwnc/pynciau y maent yn ei astudio/eu hastudio
- yn achos y Dystysgrif Sylfaen Ryngwladol, cymhwysedd mewn Saesneg ar y lefel briodol ar gyfer mynediad i addysg uwch

Yn nodweddiadol, bydd deiliaid y cymhwyster yn gallu:

- defnyddio ystod o ymatebion i broblemau sydd wedi'u diffinio'n dda
- cael gafael ar wybodaeth a'i gwerthuso
- ymwneud â gweithgaredd hunangyfeiriedig gydag arweiniad/gwerthuso
- cyfathrebu canlyniadau eu hastudiaeth/gwaith mewn modd clir a strwythuredig

Bydd gan ddeiliaid hefyd:

- y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sy'n angenrheidiol ar gyfer astudio mewn prifysgol, gan gynnwys arfer cyfrifoldeb personol

ANM/CBB
Medi 2014

## Rheoliadau ar gyfer Graddau Sylfaen

**Medi 2024**

### Mynediad

1. I fod yn gymwys i'w dderbyn neu i'w derbyn i astudio am un o Raddau Sylfaen y Brifysgol, rhaid i ymgeisydd fod wedi bodloni unrhyw amodau mynediad pellach a all fod yn ofynnol gan y Brifysgol a/neu'r athrofa mewn perthynas â'r cynllun dan sylw.

### Strwythur y Cynlluniau

2. Caiff cynlluniau Graddau Sylfaen eu cynnig ar sail cyfnod astudio amser-llawn dwy flynedd neu dair blynedd (neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser).

3. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr amser-llawn ddilyn yr hyn sy'n cyfateb i 120 o gredydau o leiaf ym mhob blwyddyn academaidd.

### Trosglwyddo Credydau

4. Er gwaethaf paragraffau 2 a 3 uchod, caiff y Brifysgol, o fewn y cyfyngiadau cyffredinol a ddangosir isod, farnu bod perfformiad myfyriwr neu fyfyrwraig yn naill ai'r astudiaethau blaenorol a ddilynwyd ac/neu mewn unrhyw ddysgu drwy brofiad blaenorol yn cyfrif tuag at y gofynion ar gyfer dyfarnu Gradd Sylfaen. Rhaid i'r cyfryw astudio neu ddysgu drwy brofiad blaenorol fod yn berthnasol i'r cynllun sydd i'w ddilyn a rhoddir gwerth credydau iddo yn unol â disgresiwn yr athrofa sy'n derbyn. Bydd yr astudio blaenorol wedi ei gwblhau yn y Brifysgol, neu mewn prifysgol neu sefydliad arall y mae ei chynlluniau neu ei gynlluniau wedi eu cydnabod gan y Brifysgol at ddiben bodloni ei pholisi ar Gasglu a Throsglwyddo Credydau.

Ni fydd uchafswm y credydau y gellir eu derbyn i gyfrif tuag at un o Raddau Sylfaen y Brifysgol yn fwy na 120. Lle y bo uchafswm y credyd trosglwyddadwy a ganiateir wedi ei dderbyn, bydd gweddill y credydau sydd i'w dilyn drwy'r sefydliad derbyn ar Lefel 2 AU/ Lefel 5 FfCChC o leiaf fel rheol.

### Asesu

5. Fel rheol caiff cynnydd ymgeisydd ei asesu yn y cyfnod yn union ar ôl iddo neu iddi gwblhau'r uned astudio.

6. Y marc pasio ar gyfer unedau asesu, modiwlau a dyfarniadau fydd 40%.

7. * Er mwyn caniatáu cywiro methiant a chyfnodau o dynnu'n ôl dros dro, y terfyn amser uchaf ar gyfer cwblhau'r dyfarniad fydd hyd y cynllun astudio ynghyd â dwy flynedd. e.e.

Dull astudio amser-llawn - cynllun dwy flynedd: dim mwy na phedair blynedd o ddechrau'r cynllun

Dull astudio rhan-amser - cynllun tair blynedd: dim mwy na phum mlynedd o ddechrau'r cynllun

Gall y Dirprwy Is-Ganghellor (neu enwebai) roi estyniadau i'r terfynau amser hyn yn seiliedig ar amgylchiadau arbennig eithriadol os cyflwynir cais gan adran academaidd i'r Gofrestrfa Academaidd, gyda thystiolaeth o'r amgylchiadau arbennig ac achos cryf a rhesymegol, sy'n dangos y gellir disgwyl cwblhau'n rhesymol ymhen cyfnod pellach o 12 mis.

*(* Diweddarwyd y geiriad terfyn amser ym Medi 2024 yn unol â rheoliadau Gradd Gychwynnol Modiwl)*

Lle y bo trosglwyddo credydau wedi ei gymeradwyo, o dan baragraff 5 uchod, caiff y Brifysgol gyfrifo lleihad pro-rata i'r terfyn amser cyffredinol ar gyfer yr ymgeisydd unigol. Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y terfyn amser hwn ar y dechrau

Methu

8. Yn unol â disgresiwn y Bwrdd Arholi, gellir caniatáu i fyfyrwyr Rhan Un (blwyddyn 1 fel rheol) hyd at dair* ymgais i adfer modiwl a fethwyd. Bydd myfyrwyr yn gymwys am y marc pasio lleiaf o 40% wrth ailsefyll yn Rhan Un. Caniateir dwy ymgais bellach i fyfyrwyr Rhan Dau ailsefyll modiwl a fethwyd. Dim ond y marc pasio lleiaf (h.y. 40%) y gellir ei ddyfarnu iddynt ym mhob modiwl o'r fath, waeth beth fo lefel wirioneddol eu perfformiad.

Dyfarnu

9. Gellir dyfarnu cymhwyster ymadael (Tystysgrif Addysg Uwch) i ymgeiswyr sydd wedi dilyn 120 o gredydau o leiaf ond sy'n canfod eu hunain yn methu, wedi hynny, â chwblhau'r cynllun (neu na chaniateir iddynt ei gwblhau).

10. I fod yn gymwys i'w ystyried neu i'w hystyried am ddyfarniad Gradd Sylfaen, bydd ymgeisydd wedi:

- dilyn cynllun astudio cymeradwyedig am y cyfnod a bennir gan y Brifysgol, ac eithrio fel y darperir gan Reoliad 4 uchod;
- dilyn 240 o gredydau o leiaf, y bydd o leiaf 120 ohonynt ar Lefel 2 AU / Lefel 5 FfCChC, neu'n uwch;
- bodloni unrhyw amod(au) pellach sy'n ofynnol gan y Brifysgol.

Rhaid i ymgeiswyr basio 200 o 240 o gredydau sy’n cyfrannu tuag at ddyfarnu y Radd Sylfaen. Ni chaiff myfyrwyr fethu mwy nag 20 credyd yn eu Blwyddyn Olaf.

11. Wrth bennu a ellir dyfarnu Gradd Sylfaen i ymgeisydd, bydd Byrddau Arholi yn dilyn y confensiynau a gymeradwywyd gan y Brifysgol. Gall y confensiynau hyn gynnwys gweithdrefnau neu fecanweithiau er mwyn i'r Bwrdd Arholi ymarfer disgresiwn. Gall Bwrdd Arholi gymryd i ystyriaeth ddatblygiad academaidd yr ymgeisydd drwy gydol y cynllun astudio.

12. Dyfernir i ymgeiswyr am radd sylfaen sydd wedi bodloni gofynion y cynllun radd yn un o’r dosbarthiadau isod:

- Pasio
- Teilyngdod
- Rhagoriaeth

## Rheoliadau ar gyfer Graddau Cychwynnol Modiwlar

1. Gellir dyfarnu graddau cychwynnol (Baglor a Meistr Integredig) i'r sawl sydd wedi cwblhau cynllun astudio modiwlar a gymeradwywyd gan y Brifysgol yn llwyddiannus.

2. Bydd pob cynllun yn cael ei ddiffinio fel un:

- Anrhydedd Sengl
- Anrhydedd Cyfun
- Prif Bwnc/Is-bwnc
- Ategol

yn unol â'r strwythurau a gymeradwywyd gan y Brifysgol.

3. I fod yn gymwys i gael eu hystyried am ddyfarniad gradd o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i fyfyrwyr:

- fod wedi dilyn cynllun astudio modiwlar a gymeradwywyd am y cyfnod a bennwyd gan y Brifysgol, ac eithrio fel y darperir drwy Reoliad 28 isod;
- fod wedi cyrraedd y cyfryw isafswm lefelau credyd a bennir mewn Cynllun a gymeradwywyd gan y Brifysgol;
- fod wedi cyflawni unrhyw amod arall/amodau eraill a fynnir gan y Brifysgol.

4. Mae cynlluniau astudio'n cynnwys modiwlau sydd wedi'u cymeradwyo, pob un ohonynt â gwerth credyd sydd wedi'i ddiffinio mewn perthynas â'r oriau dysgu tybiannol sy'n gysylltiedig â'r modiwl, fel yr amlinellir yng Nghynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau'r Brifysgol.

5. Bydd graddau cychwynnol yn cynnwys dwy ran, sef Rhan Un a Rhan Dau. Bydd y Brifysgol yn pennu ac yn cyhoeddi fel y bo'n addas reolau i reoli cynnydd myfyrwyr rhwng blynyddoedd astudio a dosbarthiad graddau Anrhydedd. Bydd pob modiwl a astudir yn Rhan Dau yn cyfrannu at asesiad gradd terfynol pob myfyriwr, yn amodol ar gyfyngiadau a amlinellir yng Nghynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau'r Brifysgol. Mae'n bosibl y gellir derbyn modiwlau a astudiwyd mewn sefydliadau eraill sydd wedi'u

cymeradwyo yn lle modiwlau a astudiwyd yn y Brifysgol. Bydd graddau Ategol yn cynnwys un flwyddyn yn Rhan Dau.

6. Mae modiwlau ar gael ar wahanol lefelau, yn unol â'r hyn a ddiffinnir gan y Brifysgol yn ei Chynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau.

7. Ac eithrio myfyrwyr a dderbynnir o dan ddarpariaethau Rheoliad 30 isod, rhaid i fyfyrwyr fod wedi astudio'r hyn sydd gyfwerth ag o leiaf 360 o gredydau, ac o leiaf 120 o'r rheiny fel rheol ar Lefel 3 AU/Lefel 6 FfCChC, neu'n uwch, er mwyn bod yn gymwys i gael gradd Anrhydedd ar lefel Baglor. Ar gyfer dyfarniadau Meistr integredig, rhaid i fyfyrwyr fod wedi astudio'r hyn sydd gyfwerth ag o leiaf 480 o gredydau, ac o leiaf 120 o'r rheiny fel rheol ar Lefel M AU/Lefel 7 FfCChC, neu'n uwch. Ar gyfer graddau ategol, mae'n rhaid i fyfyriwr astudio'r hyn sy'n gyfwerth ag o leiaf 120 credyd ar lefel AU 3/lefel 6 FfCChC. Fel rheol mae'n ofynnol i fyfyrwyr amser-llawn astudio'r hyn sydd gyfwerth ag o leiaf 120 o gredydau yn ystod pob sesiwn academaidd, fel rheol ar sail 60 credyd fesul semester. I ganiatáu hyblygrwydd ac i hwyluso dewis i fyfyrwyr, caniateir uchafswm o 70 credyd ac isafswm o 50 credyd fesul semester fel rheol.

8. Caiff myfyrwyr astudio am ddyfarniadau ar sail ran-amser, yn amodol ar y terfynau amser cyffredinol ar gyfer cwblhau'r cynllun, fel y nodir ym mharagraff 28 isod.

9. Gyda chymeradwyaeth y Brifysgol, ni all rhagor nag 20 credyd o fodiwlau Lefel 0 AU/3 FfCChC gyfrif tuag at gwblhau Rhan Un ac ni all rhagor nag 20 credyd o fodiwlau Lefel 1 AU/4 FfCChC gyfrif tuag at gwblhau Rhan Dau.

10. Bydd myfyrwyr fel rheol yn cael eu hasesu yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl cwblhau'r gwaith dysgu sy'n gysylltiedig â phob modiwl yn unol â'r dulliau asesu a'r gweithdrefnau marcio a gymeradwywyd gan y Brifysgol.

11. Y marc pasio modiwlar ar Lefelau 1, 2 a 3 fydd 40%. Y marc pasio modiwlar ar Lefel M fydd 50%. Yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi, gellir caniatáu i fyfyrwyr **Rhan Un** gael hyd at dair ymgais i adfer modiwl y maent wedi'i fethu. Byddant yn gymwys i gael y marciau llawn pan fyddant yn ailsefyll. Yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi, gellir caniatáu i fyfyrwyr **Rhan Dau** gael dwy ymgais arall i ailsefyll neu gyfnewid modiwl y maent wedi'i fethu. Ni fydd modd iddynt gael mwy na'r marc pasio isaf ym mhob modiwl o'r fath, beth

bynnag fo lefel eu perfformiad mewn gwirionedd. Gall y Byrddau Arholi gynnig rhagor o gyfleoedd i ailsefyll lle derbynnir bod amgylchiadau arbennig wedi effeithio ar berfformiad.

12. Yn amodol ar baragraff 11 uchod, pan fo myfyriwr wedi methu modiwl yn gyffredinol ond wedi pasio rhai elfennau sy'n cael eu hasesu, bydd y marciau a gafwyd yn yr elfennau hynny fel rheol yn cael eu cario ymlaen i unrhyw ailsefyll.

13. Yn achos modiwlau a fethwyd, fel rheol disgwylir i fyfyrwyr:

1. (ail)gyflwyno gwaith cwrs y maent wedi'i fethu neu waith cwrs nad yw'n bodoli (os mai gwendidau yn yr elfen hon sydd wedi arwain at y methiant)

**NEU:**

2. ailsefyll yr arholiad (pan fo'r myfyrwyr wedi methu'r arholiad neu wedi bod yn absennol ohono)

**NEU:**

3. ailgyflwyno'r gwaith i'w asesu ac ailsefyll yr arholiad (pan fo myfyrwyr wedi methu dwy ran yr asesiad, neu naill ran yr asesiad neu'r llall mewn rhai achosion).

Gall yr Adrannau, fodd bynnag, fynnu defnyddio dulliau asesu gwahanol i'r asesiadau gwreiddiol a gymeradwywyd ar gyfer modiwl sy'n cael ei ailsefyll. Rhaid sicrhau bod y cyfryw asesiadau yn dal i brofi canlyniadau dysgu'r modiwl. Bydd yr Adrannau yn datgan yn eglur wrth fyfyrwyr pa asesiadau fydd yn berthnasol iddynt.

14. Bernir bod myfyrwyr wedi cwblhau'r modiwl pan fo'r gwaith dysgu sy'n gysylltiedig ag ef wedi dod i ben. Ni chaniateir i fyfyrwyr dynnu'n ôl o'r asesiad terfynol oni bai bod tystiolaeth o amgylchiadau arbennig (salwch neu amgylchiadau tosturiol eraill) y gellir dangos eu bod wedi effeithio ar eu perfformiad ac sydd wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd Arholi perthnasol cyn iddo ystyried eu canlyniadau.

15. Pan fo gwaith wedi'i asesu yn cael ei ddiffinio fel rhan hanfodol o fodiwl, bydd yr Adrannau yn nodi'n eglur yn y wybodaeth a roddir i fyfyrwyr beth yw'r cosbau ar gyfer peidio â chyflwyno. Pan fo myfyrwyr yn methu â chyflwyno gwaith cwrs i'w asesu yn

Rhan Dau erbyn y dyddiad cau a nodwyd, ni ddylai fod ganddynt hawl awtomatig i ailgyflwyno er mwyn adfer methiant.

16. Fel rheol bydd myfyrwyr Rhan Un sy'n methu â chwblhau'r flwyddyn yn foddhaol yn ôl yr hyn a ddiffinnir yn y confensiynau, ond na chafwyd unrhyw adroddiadau anffafriol ynghylch eu cynnydd academaidd, yn cael caniatâd i ailadrodd rhan neu'r cyfan o'r flwyddyn fel myfyrwyr amser-llawn, rhan-amser neu ran-amser allanol. Fel arfer, cedwir unrhyw gosbau am ymddygiad academaidd annerbyniol.

17. Yn Rhan Dau, ni chaiff myfyrwyr ailsefyll unrhyw fodiwl yr enillwyd marc pasio ar ei gyfer eisoes. Fodd bynnag, caiff myfyrwyr Rhan Dau, gyda chaniatâd yr Adran, ail-gychwyn eu hail flwyddyn eto ar gynllun gradd gwahanol ar yr amod bod yr amcanion dysgu wedi cael eu cyflawni ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun gradd newydd. Mae'r cyfyngiad cyffredinol o dair ymgais i basio modiwl (modiwlau newydd eu dewis neu fodiwlau a astudiwyd yn flaenorol) yn parhau'n berthnasol e.e. byddai ail-wneud yr ail flwyddyn yn cael ei ystyried yn un o'r tair ymgais, os yw'r modiwlau wedi'u pasio'n flaenorol ai peidio. Bydd modiwlau sy'n cael eu hailsefyll am farc wedi'i gapio, dangosyddion N, yn ogystal ag unrhyw fodiwlau a basiwyd sydd eu hangen, yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun gradd newydd. Caiff myfyrwyr hefyd ddewis ailsefyll y modiwlau y maent wedi eu methu yn flaenorol yn unig. Mae'n bosib y caiff myfyrwyr ddewis modiwlau newydd yn lle'r rhai a fethwyd, ond bydd y rhain yn aros wedi'u capio.

18. Ar gyfer astudiaethau amser llawn rhaid i fyfyrwyr symud ymlaen o fewn dwy flynedd o gychwyn pob lefel yn Rhan Dau.

19. Bydd yr Adrannau yn cadw cofnodion am yr holl fyfyrwyr sy'n methu modiwlau unigol.

20. Bydd y Byrddau Arholi Adrannol yn cofnodi'n glir pan fo marciau wedi'u haddasu, ynghyd â'r rhesymau am yr addasu.

21. Bydd myfyrwyr sy'n absennol o arholiadau heb reswm nac esboniad da neu sy'n methu oherwydd nad ydynt wedi cyflwyno gwaith i'w asesu dan y rheolau a ddiffinnir gan y Brifysgol yn cael eu cosbi'n unol â'r hyn a bennir gan y Brifysgol. Gall y rhai sydd wedi methu neu wedi bod yn absennol o asesiadau modiwl am resymau meddygol,

tosturiol neu resymau arbennig eraill, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Arholi, gael caniatâd i ailsefyll am y marc llawn. Bydd myfyrwyr o'r fath yn cael dewis ailsefyll y modiwlau perthnasol yn y cyfnod arholiadau atodol neu yn ystod y sesiwn ganlynol.

22. Ni chaiff myfyrwyr gradd Baglor fethu mwy nag 20 credyd sy’n cyfrannu at ddosbarthiad terfynol eu dyfarniad (ac eithrio Modiwlau Lefel S). Ni chaiff myfyrwyr gradd Meistr Integredig fethu mwy nag 20 credyd ar draws Lefel Dau (Ail Flwyddyn) a Thri (Trydedd Flwyddyn) ac ni chant fethu mwy nag 20 credyd ar Lefel M (Pedwaredd Flwyddyn).

22a. Dylai myfyrwyr ar y cynlluniau canlynol wirio’r Confensiynau Arholiadau (https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/exam-conventions/) ar gyfer eu cynlluniau gan fod nifer y credydau y caniateir eu methu yn wahanol i’r rhai a nodir ym mharagraff 22 uchod:

- 
    - BSc Nyrsio (Oedolion) a’r BSc Nyrsio (Iechyd Meddwl)
    - FDSc Nyrsio Milfeddygol

23. Gall myfyrwyr a dderbynnir i gynllun gradd gychwynnol modiwlar ond sydd wedyn yn methu â bwrw ymlaen i'w gwblhau, neu na chaniateir iddynt wneud hynny, fod yn gymwys ar gyfer un o'r dyfarniadau canlynol, gan ddibynnu ar nifer y credydau yr oeddynt wedi'u casglu ar y lefelau priodol adeg gadael y cynllun:

- Tystysgrif Addysg Uwch (Lefel 1 AU/4 FfCChC)
- Diploma Addysg Uwch (Lefel 2 AU/5 FfCChC)
- Gradd Gyffredin (Lefel 3 AU/6 FfCChC)
- Gradd Baglor (Lefel 3 AU/ 6 FfCChC)

Bydd y Brifysgol yn pennu confensiynau ar gyfer dyfarnu'r cymwysterau hyn. Fel rheol ni fydd myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro gyda'r bwriad o ddychwelyd at eu hastudiaethau yn nes ymlaen yn gymwys i gael Tystysgrif Addysg Uwch, y Ddiploma Addysg Uwch, y Radd Gyffredin neu’r Radd Baglor.

24. Bydd ymgeiswyr sy'n ymadael â chynllun gradd gyda Thystysgrif Israddedig Diploma Addysg Uwch neu Radd Gyffredin o dan y trefniadau hyn yn gymwys i gael marc Pasio yn unig.

25. Dyfernir i fyfyrwyr graddau cychwynnol sydd wedi cyflawni gofynion y cynllun y dosbarthiadau Anrhydedd canlynol:

- Cyntaf
- Ail Ddosbarth, Adran
- Ail Ddosbarth, Adran Dau
- Trydydd Dosbarth

Bydd gan Fwrdd Arholi ddisgresiwn i benderfynu ar y myfyrwyr hynny ar raddau cychwynnol y gallent fod, ar ôl methu â bodloni'r Bwrdd y dylid dyfarnu Anrhydedd iddynt, yn gymwys ar gyfer dyfarniad gradd ar lefel Pasio.

26. Ni chaiff myfyrwyr sydd wedi ymgymhwyso am radd ar lefel Anrhydedd neu Basio fynd ymlaen wedi hynny i ailsefyll modiwl a fethwyd gyda'r bwriad o wella Dosbarth y Radd a ddyfarnwyd ynghynt.

27. Bydd myfyrwyr sy'n methu â chyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu gradd ond sydd wedyn yn adfer eu methiant mewn modiwlau er boddhad y Bwrdd Arholi o dan Reoliad 11 uchod yn gymwys i gael eu hystyried ar gyfer dyfarniad gradd ar lefel Pasio neu Anrhydedd, fel y bo'n briodol.

28. Er mwyn caniatáu cywiro methiant a chyfnodau o dynnu'n ôl dros dro, y terfyn amser uchaf ar gyfer cwblhau'r dyfarniad fydd hyd y cynllun astudio ynghyd â dwy flynedd. e.e.

Dull astudio amser-llawn

- cynllun dwy flynedd: dim mwy na phedair blynedd o ddechrau'r cynllun
- cynllun tair blynedd: dim mwy na phum mlynedd o ddechrau'r cynllun

Dull astudio rhan-amser

- cynllun dwy flynedd: dim mwy na chwe blynedd o ddechrau'r cynllun
- cynllun tair blynedd: dim mwy nag wyth mlynedd o ddechrau'r cynllun

Gall y Dirprwy Is-Ganghellor (neu enwebai) roi estyniadau i'r terfynau amser hyn yn seiliedig ar amgylchiadau arbennig eithriadol os cyflwynir cais gan adran academaidd i'r Gofrestrfa Academaidd, gyda thystiolaeth o'r amgylchiadau arbennig ac achos cryf a rhesymegol, sy'n dangos y gellir disgwyl cwblhau'n rhesymol ymhen cyfnod pellach o 12 mis

29. Bydd yr Adrannau yn cadw sgriptiau arholiadau a gwaith arall a asesir am o leiaf chwe mis wedi i ymgeiswyr gwblhau pob rhan o'u cynllun astudio.

30. O fewn y terfynau cyffredinol a bennwyd gan y Brifysgol ar gyfer casglu a throsglwyddo credydau, gall y Brifysgol, yn ôl ei disgresiwn, farnu bod perfformiad myfyrwyr  mewn astudiaethau a ddilynwyd yn flaenorol mewn sefydliad arall sydd wedi'i gymeradwyo ac/neu unrhyw ddysgu blaenorol drwy brofiad yn cyfrif tuag at y gofynion ar gyfer dyfarnu gradd.  Rhaid i'r cyfryw astudiaethau neu ddysgu drwy brofiad blaenorol fod yn berthnasol i'r cynllun sydd i'w ddilyn a byddant yn cael eu graddio o safbwynt credydau gan y Brifysgol cyn i'r myfyrwyr gael eu derbyn i'r Brifysgol.

Rhaid i uchafswm y credydau y gellir eu derbyn i'w cyfrif tuag at radd Baglor gychwynnol y Brifysgol o dan y trefniadau hyn beidio â bod yn fwy na 240. Yn achos cynlluniau Nyrsio Cyn Cofrestru caniateir uchafswm o 50% o Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (Trwy Brofiad) (RP(E)L). Yn achos cynlluniau BEng/MEng Peirianneg Drydanol ac Electronig rhaid i'r adran sicrhau bod y myfyrwyr wedi bodloni holl ganlyniadau dysgu'r AHEP, a rhaid dangos tystiolaeth o hyn gyda dogfen fapio.

Lle bo uchafswm y credydau y gellir eu trosglwyddo wedi ei dderbyn, rhaid i weddill y credydau sydd i'w hastudio yn y Brifysgol fod ar Lefel 3 AU/Lefel 6 FfCChC neu'n uwch. Gweler Cynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau'r Brifysgol.

Rheoliadau Ychwanegol

Darpariaethau arbennig mewn perthynas â'r graddau canlynol:

**BA Astudiaethau Plentyndod Cynnar (gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar)**

31. Bydd myfyrwyr sy'n cael eu derbyn ar gynllun BA Astudiaethau Plentyndod Cynnar (gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar) yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau ar gyfer

Graddau Cychwynnol Modiwlar gyda'r eithriad canlynol.   Os na allant wedyn symud ymlaen, neu os na chaniateir iddynt fynd ymlaen i gwblhau'r dyfarniad, yn ddibynnol ar nifer y credydau a enillwyd ar y lefelau priodol pan fyddant yn ymadael, mae'n bosib y byddant yn gymwys i dderbyn un o'r dyfarniadau canlynol gydag 'Astudiaethau Plentyndod Cynnar' fel teitl y cynllun (dim Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar):

- Tystysgrif Addysg Uwch (AU Lefel 1/CQFW 4)
- Diploma mewn Addysg Uwch (AU Lefel 2/CQFW 5)
- Gradd Gyffredin (Lefel AU 3/CQFW 6)

**BSc Nyrsio (Oedolion) a BSc Nyrsio (Iechyd Meddwl)**

32. Bydd myfyrwyr sydd yn cael eu derbyn i'r cynlluniau BSc Nyrsio (Oedolion) a BSc Nyrsio (Iechyd Meddwl) yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Cychwynnol Modiwlar gyda'r eithriad canlynol. Os na fyddant yn gallu symud ymlaen wedi hynny i gwblhau’r cymhwyster, neu os na chaniateir iddynt wneud hynny, mae’n bosibl – gan ddibynnu ar nifer y credydau a enillwyd ar y lefelau priodol pan fyddant yn gadael – y byddant yn gymwys am un o'r dyfarniadau canlynol, gydag 'Astudiaethau Gofal Iechyd' fel teitl y cynllun:

- Tystysgrif Addysg Uwch (AU Lefel 1/FfCChC 4
- Diploma Addysg Uwch (AU Lefel 2/FfCChC 5

Bydd ymgeisydd sy'n methu â chyflawni'r gofynion BSc Nyrsio (Oedolion) a BSc Nyrsio (Iechyd Meddwl) a nodir yn adran 4.8 o’r LlAA, ond sy'n bodloni rheoliadau gradd gychwynnol modiwlar PA yn gymwys i ennill dyfarniad BSc mewn Astudiaethau Gofal Iechyd.

**Cynlluniau gradd Peirianneg Drydanol ac Electronig (BEng/MEng)**

33. Bydd myfyrwyr sydd yn cael eu derbyn i'r cynlluniau BEng/MEng Peirianneg Drydanol ac Electronig yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Cychwynnol Modiwlar gyda'r eithriad canlynol. Os na fyddant yn gallu symud ymlaen wedi hynny i gwblhau’r cymhwyster, neu os na chaniateir iddynt wneud hynny, mae’n bosibl, gan ddibynnu ar nifer y credydau a enillwyd ar y lefelau priodol pan fyddant yn gadael, y byddant yn

gymwys am un o'r dyfarniadau canlynol gyda 'Technoleg Drydanol ac Electronig' fel teitl y cynllun (nad ydynt yn cael eu hachredu gan IET):

- Tystysgrif Addysg Uwch (AU Lefel 1/FfCChC 4)
- Diploma Addysg Uwch (AU Lefel 2/FfCChC 5)
- BEng (AU Lefel 3/FfCChC 6)

Bydd ymgeisydd sy'n methu â chyflawni’r gofynion achredu proffesiynol BEng/MEng Peirianneg Drydanol ac Electronig a nodir yn 4.11 o'r LlAA, ond sy'n bodloni rheoliadau gradd gychwynnol modiwlar PA, yn gymwys i ennill dyfarniad BEng/MEng Technoleg Drydanol ac Electronig, nad ydynt wedi'u hachredu gan IET, neu, yn achos yr MEng, y BEng achrededig mewn Peirianneg Electronig a Thrydanol os yw'r gofynion achredu proffesiynol wedi'u bodloni.

Graddau Meistr Integredig

**Cynllun Astudio**

34. Mae’r Brifysgol wedi cymeradwyo’r graddau Meistr integredig canlynol:

- MArts
- MBiol
- MAg
- MComp
- MEng
- MLaw
- MLibArts
- MMath
- MPhys
- MSci

35. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer gradd Meistr Integredig ddilyn cynllun astudio a fydd fel rheol yn para o leiaf bedair blynedd academaidd ac yn cynnwys cyfanswm o 480 o gredydau ar y lefelau a nodir isod:

| **Credydau** | **Lefel AU** | **Lefel FfCChC** |
|---|---|---|
| 120 | 1 | 4 |
| 120 | 2 | 5 |
| 120 | 3 | 6 |
| 120 | M | 7 |

**1. Trosglwyddo rhwng Graddau Meistr Integredig a chynlluniau Baglor cytras**

36. Yn ôl disgresiwn y Brifysgol, gall ymgeiswyr am radd Meistr Integredig drosglwyddo, neu orfod trosglwyddo, eu cofrestriad i gynllun astudio cytras am BSc, BEng neu BA ar yr adegau canlynol:

**a. Naill ai**

pan fyddant wedi casglu 120 o gredydau ar Lefel 1 AU/Lefel 4 FfCChC;

**b. Neu, os yw'n ddiweddarach**,

pan fyddant wedi casglu 120 o gredydau eraill ar Lefel 2 AU/Lefel 5 FfCChC.

Bydd ymgeiswyr o'r fath yn ymuno â'r cynllun gradd Baglor yn y man priodol, ac ar ddechrau'r modiwlau Lefel 3 AU/Lefel 6 FfCChC fan bellaf.

**2. Dyfarnu gradd Baglor i fyfyrwyr sydd wedi casglu 360 o gredydau mewn cynllun Meistr Integredig:**

37. Bydd myfyrwyr sydd wedi casglu 360 o gredydau, gyda 120 o gredydau yr un ar Lefelau 1, 2 a 3 AU/Lefelau 4, 5 a 6 FfCChC neu'n uwch, ond sydd:

- yn methu â mynd ymhellach â'r cynllun, neu
- yn methu â chasglu 120 o gredydau eraill ar Lefel M AU/Lefel 7 FfCChC

yn gallu, ar argymhelliad y Bwrdd Arholi, cael gradd Baglor ar lefel Anrhydedd neu Basio, fel y bo'n briodol, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y cynllun hwnnw.

Mai 2025

## Rheoliadau ar gyfer Dychwelyd i Ymarfer (Nyrsio Oedolion)

1. Bydd Prifysgol Aberystwyth yn rhoi gwybod i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth pan fydd myfyrwyr wedi cwblhau 60 credyd o fodiwlau dychwelyd i ymarfer yn llwyddiannus.

2. Mae'n rhaid i fyfyrwyr basio pob asesiad sy’n rhan o’r cymhwyster ym mhob modiwl.

3. Marc pasio’r modiwlau fydd 40%. Yn unol â disgresiwn y Bwrdd Arholi, bydd myfyrwyr yn cael UN cyfle i ailsefyll. Dim ond marc pasio isaf pob modiwl y byddant yn gymwys i’w gael, waeth beth yw safon eu perfformiad. Mae’n bosibl y bydd Byrddau Arholi yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i ailsefyll pan dderbynnir bod amgylchiadau arbennig wedi effeithio ar berfformiad.

4. Bydd myfyrwyr sy'n absennol o arholiadau heb reswm neu esboniad da, neu sy'n methu oherwydd nad oeddent wedi cyflwyno gwaith i’w asesu o dan reolau a ddiffinnir gan y Brifysgol, yn cael eu cosbi yn unol â’r drefn a bennir gan y Brifysgol. Gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Arholi, gall y rhai sydd wedi methu asesiadau’r modiwl, neu heb fod yn bresennol ar eu cyfer, am resymau meddygol neu dosturiol neu am resymau arbennig eraill, gael yr hawl i ailsefyll am y marc llawn. Gall y myfyrwyr hynny ddewis ailsefyll y modiwl(au) perthnasol ar ddiwedd pob modiwl.

5. Yn amodol ar baragraff 3 uchod, pan fydd myfyriwr wedi methu modiwl yn gyffredinol ond wedi pasio rhai elfennau wedi'u hasesu, bydd y marciau a gafwyd yn yr elfennau hynny fel arfer yn cael eu trosglwyddo i unrhyw ailsefyll.

6. Rhaid i fyfyrwyr Dychwelyd i Ymarfer gwblhau'r 60 credyd yn llawn, gan gynnwys unrhyw ymdrechion ailsefyll, o fewn 27 wythnos.

7. Dim ond UN cyfle y bydd myfyrwyr yn ei gael i gwblhau'r cwrs Dychwelyd i Ymarfer gwerth 60 credyd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

8. Bydd Adrannau yn cadw sgriptiau arholiadau a gwaith arall a aseswyd am o leiaf chwe mis ar ôl i ymgeiswyr gwblhau eu modiwlau.

## Rheoliadau ar gyfer FdSc Nyrsio Milfeddygol

**YN BERTHNASOL I'R HOLL FYFYRWYR SY'N CYCHWYN RHAN UN EU GRADD O FIS MEDI 2024.**

Mynediad

1. I fod yn gymwys i'w dderbyn neu i'w derbyn i astudio am un o Raddau Sylfaen y Brifysgol, rhaid i ymgeisydd fod wedi bodloni unrhyw amodau mynediad pellach a all fod yn ofynnol gan y Brifysgol a/neu'r gyfadran mewn perthynas â'r cynllun dan sylw.

Strwythur y Cynllun

2. Caiff FdSc Nyrsio Milfeddygol ei gynnig ar sail cyfnod astudio amser-llawn o dair blynedd (nid oes cyfatebiaeth rhan-amser).

3. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr amser-llawn FdSc Nyrsio Milfeddygol ddilyn yr hyn sy'n cyfateb i 120 o gredydau o leiaf ym mhob blwyddyn academaidd. Mae blwyddyn 2 a 3 o'r FdSc Nyrsio Milfeddygol yn cynnwys 60 credyd yr un ar Lefel 2 AU / Lefel 5 FfCChC o ganlyniad i'r flwyddyn integredig mewn lleoliad.

4. Rhaid i fyfyrwyr ar y cynllun FdSc Nyrsio Milfeddygol gwblhau lleoliad integredig (O leiaf 1800 awr mewn dim mwy na 52 wythnos, gydag o leiaf 36.5 ac uchafswm o 40 awr yr wythnos). Bydd y lleoliad yn dechrau yn semester 2 o flwyddyn 2 a bydd yn parhau tan ddiwedd semester 1 ym mlwyddyn 3.

Trosglwyddo Credydau

5. Er gwaethaf paragraffau 2 a 3 uchod, caiff y Brifysgol, o fewn y cyfyngiadau cyffredinol a ddangosir isod, farnu bod perfformiad myfyriwr neu fyfyrwraig yn naill ai'r astudiaethau blaenorol a ddilynwyd ac/neu mewn unrhyw ddysgu drwy brofiad blaenorol yn cyfrif tuag at y gofynion ar gyfer dyfarnu Gradd Sylfaen. Rhaid i'r cyfryw astudio neu ddysgu drwy brofiad blaenorol fod yn berthnasol i'r cynllun sydd i'w ddilyn a rhoddir gwerth credydau iddo yn unol â disgresiwn y gyfadran sy'n derbyn. Bydd yr astudio blaenorol wedi ei gwblhau yn y Brifysgol, neu mewn prifysgol neu sefydliad arall y mae ei chynlluniau neu ei gynlluniau wedi eu cydnabod gan y Brifysgol at ddiben bodloni ei pholisi ar Gasglu a Throsglwyddo Credydau. Rhaid i unrhyw gredydau a drosglwyddir ddilyn gofynion trosglwyddo credydau'r Brifysgol a'u mapio i

Gymwyseddau Diwrnod Un Coleg Brenhinol y Milfeddygon i sicrhau bod yr holl ofynion proffesiynol yn cael eu bodloni.

Ni fydd uchafswm y credydau y gellir eu derbyn i gyfrif tuag at un o Raddau Sylfaen y Brifysgol yn fwy na 120. Lle y bo uchafswm y credyd trosglwyddadwy a ganiateir wedi ei dderbyn, bydd gweddill y credydau sydd i'w dilyn drwy'r sefydliad derbyn ar Lefel 2 AU/ Lefel 5 FfCChC o leiaf fel rheol. Yn achos FdSc Nyrsio Milfeddygol, rhaid mapio unrhyw gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol ar sail gofynion y Corff Rheoleiddio Statudol Proffesiynol (PSRB) a rhaid i fyfyrwyr newydd ddangos tystiolaeth eu bod wedi cwblhau asesiadau yn llwyddiannus wedi'u mapio ar sail Sgiliau Diwrnod Cyntaf Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) mewn unrhyw fodiwlau y maent am gael credydau ynddynt.

Asesu

6. Fel rheol caiff cynnydd ymgeisydd ei asesu yn y cyfnod yn union ar ôl iddo neu iddi gwblhau'r uned astudio.

7. Y marc pasio ar gyfer unedau asesu, modiwlau a dyfarniadau fydd 40%.

8. Bydd pob ymgeisydd am Radd FdSc Nyrsio Milfeddygol yn cwblhau pob modiwl o fewn y cyfnodau canlynol:

i. Dull amser-llawn: dim mwy na phum mlynedd o ddechrau'r cynllun tair blynedd

(Gellir ymestyn y terfyn amser cyffredinol uchod mewn achosion eithriadol.)

Lle y bo trosglwyddo credydau wedi ei gymeradwyo, o dan baragraff 5 uchod, caiff y Brifysgol gyfrifo lleihad pro-rata i'r terfyn amser cyffredinol ar gyfer yr ymgeisydd unigol. Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y terfyn amser hwn ar y dechrau.

Methu

9. Yn unol â disgresiwn y Bwrdd Arholi, gellir caniatáu i fyfyrwyr Rhan Un (blwyddyn 1 fel rheol) hyd at dair ymgais i adfer modiwl a fethwyd. Bydd myfyrwyr yn gymwys am y marc pasio lleiaf o 40% wrth ailsefyll yn Rhan Un. Caniateir dwy ymgais bellach i fyfyrwyr Rhan Dau ailsefyll modiwl a fethwyd. Dim ond y marc pasio lleiaf (h.y. 40%) y gellir ei ddyfarnu iddynt ym mhob modiwl o'r fath, waeth beth fo lefel wirioneddol eu perfformiad.

Dyfarnu

10. Gellir dyfarnu cymhwyster ymadael (Tystysgrif Addysg Uwch mewn Iechyd Anifeiliaid) i ymgeiswyr sydd wedi dilyn 120 o gredydau o leiaf ond sy'n canfod eu hunain yn methu, wedi hynny, â chwblhau'r cynllun (neu na chaniateir iddynt ei gwblhau). Rhaid i ymgeiswyr basio 100 allan o'r 120 credyd a astudiwyd ar Lefel 1 AU / Lefel 4 FfcChC, gyda chyfartaledd wedi'i bwysoli o 40% neu uwch.

11. Gall myfyrwyr nad ydynt yn gallu bodloni gofynion trwydded i ymarfer Coleg Brenhinol y Milfeddygon fod yn gymwys i dderbyn dyfarniad ymadael amgen o FdSc Iechyd Anifeiliaid os ydynt yn bodloni'r gofynion canlynol:

Pob modiwl blwyddyn 1 a 2 (wedi pasio 180 o gredydau)

Wedi treulio o leiaf 2 wythnos mewn lleoliad gwaith sy'n berthnasol i'r diwydiant

Wedi pasio'r modiwl lleoliad diwydiannol sy'n darparu 20 credyd ychwanegol i roi'r isafswm o 200 o gredydau wedi'u pasio.

12. I fod yn gymwys i'w ystyried neu i'w hystyried am ddyfarniad Gradd Sylfaen, bydd ymgeisydd wedi:

i. dilyn cynllun astudio cymeradwyedig arm y cyfnod a bennir gan y Brifysgol, ac eithrio fel y darperir gan Reoliad 4 uchod;
ii. dilyn 240 o gredydau o leiaf, y bydd o leiaf 120 ohonynt ar Lefel 2 AU / Lefel 5 FfCChC, neu'n uwch;
iii. bodloni unrhyw amod(au) pellach sy'n ofynnol gan y Brifysgol;
iv. rhaid i ymgeiswyr basio pob elfen o'r holl fodiwlau sy'n cynnwys cyfeiriad at Gymwyseddau Diwrnod Un Coleg Brenhinol y Milfeddygon a rhaid iddynt basio pob modiwl (240 credyd) sy'n cyfrannu at ddyfarnu'r Radd Sylfaen. Rhaid i fyfyrwyr ar y cwrs FdSc Nyrsio Milfeddygol hefyd gwblhau'r gofynion lleoliad integredig yn y modiwl Nyrsio Milfeddygol Cymhwysol.

13. Wrth bennu a ellir dyfarnu Gradd Sylfaen i ymgeisydd, bydd Byrddau Arholi yn dilyn y confensiynau a gymeradwywyd gan y Brifysgol. Gall y confensiynau hyn gynnwys gweithdrefnau neu fecanweithiau er mwyn i'r Bwrdd Arholi ymarfer disgresiwn. Gall

Bwrdd Arholi gymryd i ystyriaeth ddatblygiad academaidd yr ymgeisydd drwy gydol y cynllun astudio.

14. Dyfernir i ymgeiswyr am radd sylfaen sydd wedi bodloni gofynion y cynllun radd yn un o'r dosbarthiadau isod:

- Pasio
- Teilyngdod
- Rhagoriaeth

## Rheoliadau ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Addysg Gofal Iechyd

**Yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n dechrau o fis Medi 2023**

1. I fod yn gymwys i gael eu hystyried am ddyfarniad Tystysgrif Addysg Uwch mewn Addysg Gofal Iechyd, rhaid i fyfyrwyr:

- fod wedi dilyn cynllun astudio modiwlar a gymeradwywyd am y cyfnod a bennwyd gan y Brifysgol, ac eithrio fel y darperir drwy Reoliad 16 isod.
- fod wedi cyrraedd y cyfryw isafswm lefelau credyd a bennir mewn Cynllun a gymeradwywyd gan y Brifysgol.
- fod wedi cyflawni unrhyw amod arall/amodau eraill a fynnir gan y Brifysgol.

2. Mae cynlluniau astudio'n cynnwys modiwlau sydd wedi'u cymeradwyo, pob un ohonynt â gwerth credyd sydd wedi'i ddiffinio mewn perthynas â'r oriau dysgu tybiannol sy'n gysylltiedig â'r modiwl, fel yr amlinellir yng Nghynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau'r Brifysgol.

3. Mae pob modiwl ar gael ar Lefel 1 AU/Lefel 4 FfCChC, yn unol â'r hyn a ddiffinnir gan y Brifysgol yn ei Chynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau.

4. Mae'r Dystysgrif yn cael ei chynnig ar sail rhan-amser ac mae'n ofynnol i fyfyrwyr astudio 120 o gredydau dros ddwy sesiwn academaidd.

5. Bydd myfyrwyr fel rheol yn cael eu hasesu yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl cwblhau'r gwaith dysgu sy'n gysylltiedig â phob modiwl yn unol â'r dulliau asesu a'r gweithdrefnau marcio a gymeradwywyd gan y Brifysgol.

6. Y marc pasio modiwlar fydd 40%. Yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi, gellir caniatáu i fyfyrwyr gael hyd at ddwy ymgais i adfer modiwl theori y maent wedi'i fethu, ac un ymgais i ailsefyll y modiwl sy'n seiliedig ar ymarfer. Ni fydd modd iddynt gael mwy na'r marc pasio isaf ym mhob modiwl o'r fath, beth bynnag fo lefel eu perfformiad mewn gwirionedd. Gall y Byrddau Arholi gynnig rhagor o gyfleoedd i ailsefyll lle derbynnir bod amgylchiadau arbennig wedi effeithio ar berfformiad.

7. Yn amodol ar baragraff 6 uchod, pan fo myfyriwr wedi methu modiwl yn gyffredinol ond wedi pasio rhai elfennau sy'n cael eu hasesu, bydd y marciau a gafwyd yn yr elfennau hynny fel rheol yn cael eu cario ymlaen i unrhyw ailsefyll.

8. Yn achos modiwlau a fethwyd, disgwylir i fyfyrwyr ailsefyll pob asesiad a fethwyd:

9. Bernir bod myfyrwyr wedi cwblhau'r modiwl pan fo'r gwaith dysgu sy'n gysylltiedig ag ef wedi dod i ben. Ni chaniateir i fyfyrwyr dynnu'n ôl o'r asesiad terfynol oni bai bod tystiolaeth o amgylchiadau arbennig (salwch neu amgylchiadau tosturiol eraill) y gellir dangos eu bod wedi effeithio ar eu perfformiad ac sydd wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd Arholi perthnasol cyn iddo ystyried eu canlyniadau.

10. Pan fo gwaith wedi'i asesu yn cael ei ddiffinio fel rhan hanfodol o fodiwl, bydd yr Adrannau yn nodi'n eglur yn y wybodaeth a roddir i fyfyrwyr beth yw'r cosbau ar gyfer peidio â chyflwyno. Pan fo myfyrwyr yn methu â chyflwyno gwaith cwrs i'w asesu erbyn y dyddiad cau a nodwyd, ni ddylai fod ganddynt hawl awtomatig i ailgyflwyno er mwyn adfer methiant.

11. Bydd yr Adrannau yn cadw cofnodion am yr holl fyfyrwyr sy'n methu modiwlau unigol.

12. Bydd y Byrddau Arholi Adrannol yn cofnodi’n glir pan fo marciau wedi'u haddasu, ynghyd â'r rhesymau am yr addasu.

13. Bydd myfyrwyr sy'n absennol o arholiadau heb reswm nac esboniad da neu sy'n methu oherwydd nad ydynt wedi cyflwyno gwaith i'w asesu dan y rheolau a ddiffinnir gan y Brifysgol yn cael eu cosbi’n unol â’r hyn a bennir gan y Brifysgol. Gall y rhai sydd wedi methu neu wedi bod yn absennol o asesiadau modiwl am resymau meddygol, tosturiol neu resymau arbennig eraill, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Arholi, gael caniatâd i ailsefyll am y marc llawn. Bydd myfyrwyr o'r fath yn cael dewis ailsefyll y modiwlau perthnasol (gweler y Confensiynau Arholi am fanylion).

14. Rhaid i fyfyrwyr Tystysgrif Addysg Uwch mewn Addysg Gofal Iechyd basio pob asesiad ym mhob modiwl; ni chaniateir methu unrhyw gredydau.

15. Dyfernir y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Addysg Gofal Iechyd i fyfyrwyr sydd wedi cyflawni gofynion y cynllun ar sail pasio/methu.

16. Rhaid i bob myfyriwr gwblhau'r holl asesiadau a bennwyd o fewn pedair blynedd o ddechrau'r cynllun. Gellir ymestyn y terfyn amser uchod mewn achosion eithriadol os ceir cymeradwyaeth gan y Brifysgol.

17. Bydd yr Adrannau yn cadw sgriptiau arholiadau a gwaith arall a asesir am o leiaf chwe mis wedi i ymgeiswyr gwblhau eu cynllun astudio.

18. Gall myfyrwyr sydd yn cwblhau’r Dystysgrif Addysg Uwch mewn Addysg Gofal Iechyd yn foddhaol drosglwyddo’u credydau i lwybr rhan-amser Lefel 5 (ail flwyddyn BSc Nyrsio Oedolion neu Iechyd Meddwl) y graddau nyrsio cyn cofrestru (yn amodol ar nifer y lleoedd sydd ar gael a phroses ymgeisio lwyddiannus). Ni fydd yn ofynnol i fyfyrwyr ddychwelyd y Dystysgrif Addysg Uwch os byddant yn dewis symud ymlaen i’r radd nyrsio cyn cofrestru.